


# Adeiladu Lleoedd Iachach a Thecach

# Effaith Cyfyngiadau Tai ar Ryddhau o Ysbytai GIG yng Nghymru[1]

## Mawrth 2026

## Cynnwys


**Diffiniadau** .......... 2

**Am y Data** .......... 2

**1. Cyflwyniad a Chrynodeb** .......... 3

**2. Oedi cyn Rhyddhau o Ysbyty** .......... 6

**3. Cost Oedi cyn Rhyddhau** .......... 9

**4. Casgliad** .......... 10

Atodiad 1 .......... 12


Gan: Elly Lock, Pennaeth Polisi ac Ymchwil, a Shah Farahi, Cynghorydd Ymchwil a Pholisi

---

[1] Defnyddir ystadegau swyddogol ym mhob rhan o'r ddogfen os na nodir fel arall. Daw'r ystadegau o https://stats.llyw.cymru/cy=GB, a gyrchwyd ddiwethaf ar 20 Ionawr 2026.

## Diffiniadau

**Rhyddhau Gohiriedig** – Claf sy'n barod yn glinigol ar gyfer rhyddhau ond na all adael ysbyty oherwydd nad yw'r gofal a chymorth parhaus angenrheidiol, neu lety addas, ar gael hyd yma.

**Diwrnodau oedi cyn rhyddhau –** Nifer cronnus y diwrnodau a brofwyd gan oedolion y cafodd eu trosglwyddiad o ysbyty ei ohirio am fwy na 48 awr ar ôl iddynt fod yn barod yn glinigol i gael eu rhyddhau.

**Oedi Rhyddhau –** Nifer yr unigolion sydd wedi profi oedi o fwy na 48 awr wrth eu trosglwyddo o'r ysbyty ar ôl iddynt fod yn barod yn glinigol i gael eu rhyddhau.

**Oedi mewn Llwybr Gofal** – Mae'r llwybr gofal yn cyfeirio at y cynlluniau i symud claf o driniaeth ysbyty i'w lleoliad gofal priodol nesaf. Mae oedi yn digwydd pan mae claf yn barod yn glinigol i gael ei rhyddhau ond na all symud ymlaen oherwydd nad yw'r gofal, cymorth, cyllid neu lety angenrheidiol ar gael.

## Am y Data

Mae'r adroddiad yn defnyddio data a diffiniadau Llywodraeth Cymru o bwyntiau data. Mae'r data yn giplun ar ddiwrnod penodol bob mis ac nid yw'n cynnwys cyfanswm nifer y dyddiau yn y mis. Mae'r data yn rhoi adroddiad am y nifer yr achosion unigol o oedi a chyfanswm cronnus y diwrnodau oedi. Ar gyfer unrhyw bwynt data, y nifer y diwrnodau oedi yw nifer cronnus y diwrnodau y cafodd cleifion eu hoedi ar gyfer y nifer a adroddwyd o achosion unigol o oedi.

Mae data'r Llywodraeth yn dynodi cleifion y cafodd eu rhyddhau ei oedi a'r rheswm am yr oedi ar bwynt penodol mewn mis penodol. Mae'n rhoi gwybodaeth ar nifer yr oedolion sy'n gleifion yn defnyddio gwely ysbyty GIG sydd yn ffit yn glinigol ac yn barod i ddychwelyd adre neu symud ymlaen i gam nesaf eu gofal. Fodd bynnag, profodd yr oedolion hyn oedi o fwy na 48 awr yn eu trosglwyddiad tu hwnt i'r pwynt pan oeddent yn ffit yn glinigol.

Mae'r adroddiad yn defnyddio data cronnus ar lefel genedlaethol, ac nid data ar lefel darparydd bwrdd iechyd lleol unigol. Mae data ar gyfer y darparydd bwrdd iechyd lleol yn cyfeirio at y bwrdd iechyd lleol lle cafodd y gwasanaeth ei ddarparu a lle bu'r oedi.

## 1. Cyflwyniad a Chrynodeb

Gwyddom i gyd am bwysigrwydd cartrefi i'n hiechyd a'n llesiant cyffredinol. Daw hyn hyd yn oed yn fwy hanfodol pan fyddwn yn wael. Mae astudiaethau yn dangos yn glir, unwaith nad oes angen triniaeth ysbyty mwyach, bod canlyniadau iechyd yn gwella'n fawr pan gaiff gofal ei ddarparu adre. Mae arosiadau diangen o hir mewn ysbyty yn achosi risg heintiad a dirywiad.[2] Mae data a gronnwyd gan y Llywodraeth yn dangos fod gofal cysylltiedig â chartref, gofal camu-lawr, addasiadau cartref, materion yn gysylltiedig â lleoliadau cartref gofal yn ffurfio bron 45 y cant o gyfanswm yr achosion o ryddhau gohiriedig o ysbytai GIG. Wrth ddadansoddi'r data yn ôl rhesymau penodol, roedd dros 4.5 y cant o gleifion a dreuliodd 8.1 y cant o ddiwrnodau cronnus oedi cyn rhyddhau o ysbyty am gyfnod mwy nag oedd angen wedi gwneud hynny oherwydd problemau yn gysylltiedig â thai. Yn y cyfamser, mae pob diwrnod o oedi cyn rhyddhau 1401 o gleifion yn costio £705,000 ledled Cymru i GIG Cymru.

Nod yr adroddiad hwn yw deall oedi cysylltiedig â thai yn well er mwyn sefydlu sylfaen ar gyfer consensws, cydweithio a gweithredu ar draws y sectorau tai, iechyd a gofal. Y canfyddiadau allweddol, yn seiliedig ar ddata ciplun Rhagfyr 2025 yw:

- **Mae oedi cysylltiedig â thai yn effeithio ar 5 mewn 100 o gleifion:** cafodd dros 4.5 y cant o gleifion (neu 63 o bobl) oedi cyn gadael ysbyty oherwydd materion cysylltiedig â thai, gan arwain at 4,981 (8.1 y cant) o ddiwrnodau cronnus oedi cyn rhyddhau.

- **Mae hyd cyfartalog oedi cysylltiedig â thai wedi cynyddu, er fod yr amser oedi cyfartalog wedi gostwng:** mae'r data yn awgrymu fod pwysau yn deillio o faint o amser y caiff pobl eu hoedi oherwydd materion tai, yn hytrach na'r nifer cynyddol o gleifion sy'n cael eu hoedi. Er fod hyd cyfartalog oedi wedi gostwng ar gyfer llwybr gofal yn gyffredinol, mae wedi cynyddu ar gyfer tai. Ers mis Ebrill 2023, roedd yr oedi cyfartalog ar gyfer y llwybr gofal cyffredinol wedi gostwng o 50 i 45 diwrnod. O gymharu, mae tai wedi codi o 63 i 76 diwrnod.

---

[2] Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, "Oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai yng Nghymru yn effeithiol ar y gwaith o ddarparu gofal diogel", Medi2023.

Wrth edrych ar ddata misol yn ymestyn yn ôl i ddechrau 2023, mae oedi cysylltiedig â thai yn gyson yn cyfrif am gyfran anghymesur o gyfanswm diwrnodau oedi cyn rhyddhau o gymharu â'u cyfran o gleifion y cafodd eu rhyddhau ei oedi .

- **Mae diwrnodau cronnus oedi cysylltiedig â thai yn costio £2.49 miliwn:** Mae oedi cronnus cysylltiedig â thai yn cyfrif am 8 y cant o gyfanswm amcangyfrif cost yr holl ddiwrnodau cronnus oedi drwyddi draw. Mae hyn yn gyfwerth â:
    - Bron 5 y cant o Gyllideb Perfformiad a Gwella GIG Cymru
    - Rhent cyfartalog blynyddol dros 401 o gartrefi cymdeithasol
    - Y grant sydd ei angen ar gyfer tua 16 o gartrefi fforddiadwy newydd
    - Y buddsoddiad sydd ei angen i wella 42 o gartrefi i fyny i'r graddiad effeithiolrwydd ynni uchaf o EPC A,[3] a
    - Dros 1,000 o addasiadau i wneud cartrefi cymdeithasol yn hygyrch.[4]

- **Roedd oedi cysylltiedig â thai yn rhoi pwysau ar gapasiti ysbytai:** mae'r data yn dangos pwysau ychwanegol ar gapasiti ysbytai oherwydd fod unigolion y mae eu rhyddhau o ysbyty yn dibynnu ar faterion cysylltiedig â thai yn parhau i fod wedi hoedi yn hirach na chleifion a gafodd eu hoedi am resymau eraill. Mae effaith yr oedi cyn rhyddhau yn ymestyn ymhell tu hwnt i'r gost ariannol i system y GIG. Mae'n gostwng argaeledd ar gyfer derbyniadau newydd, yn effeithio ar fynediad i wasanaethau gofal brys ac argyfwng ac yn cyfrannu at oedi amserau aros adrannau argyfwng ac wrth drosglwyddo i ac o ambiwlans.[5] Mewn system sydd eisoes yn wynebu pwysau gweithlu, mae oedi cyn rhyddhau yn cynyddu straen ar staff ac yn cyfyngu ar hyblygrwydd gweithredol ar draws gwasanaethau ysbyty.[6]

- **Mae angen cynyddu'r cyflenwad ac addasiadau i ateb y galw:** Pe byddai llwybrau cysylltiedig â thai yn cael eu datrys ar yr un hyd cyfartalog

---

[3] Seiliedig ar amcangyfrifon Savills ar gyfer CHC yn 2025 o £59,000 fesul eiddo ar gyfartaledd, heb fod wedi ei addasu ar gyfer chwyddiant.

[4] Seiliedig ar gost gyfartalog addasu yn y sector cymdeithasol a nodir yma, heb ei addasu ar gyfer chwyddiant: Dadansoddiad o'r gwariant ar addasiadau i dai yng Nghymru (crynodeb) [HTML] | LLYW.CYMRU

[5] Gofal Brys ac Argywng: Llif allan o Ysbyty – Rhanbarth Gorllewin Morgannwg, Mawrth 2025, Archwilio Cymru.

[6] Tystiolaeth Ymchwil Gwyddoniaeth: Modelu Gaeaf 2025 – 2026, 22 Medi 2025, Ystadegau Llywodraeth Cymru.

â'r oedi cyffredinol mewn llwybrau gofal, byddai cyfanswm cronnus y diwrnodau oedi yn sylweddol is. Cafodd y rhan fwyaf o ryddhau cleifion (tua 40%) eu hoedi oherwydd materion yn ymwneud ag asesu, gydag oedi cyfartalog o 29 diwrnod cyn rhyddhau. O gymharu â hynny, roedd unigolion y cafodd eu rhyddhau eu hoedi oherwydd materion yn gysylltiedig â thai yn bron 5% o'r boblogaeth, gyda hyd cyfartalog rhyddhau oedi o 76 diwrnod yn 2025.

Mae'r gwahaniaeth hwn yn cynrychioli baich gormodol ar y system ysbytai yn gysylltiedig gydag oedi hir yn gysylltiedig â thai, yn hytrach na nifer yr achosion cysylltiedig â thai yn unig. Mae'n rhaid i'r cyflenwad o dai cymdeithasol ac addasiadau gynyddu er mwyn gostwng oedi cysylltiedig â thai, sy'n rhoi'r system iechyd dan bwysau ar hyn o bryd. Wrth edrych ar gyfanswm y dyddiau oedi cyn rhyddhau ym mis Rhagfyr 2025, roedd:

- 5 y cant (3,331) oherwydd nad oedd gan gleifion unrhyw breswylfa addas
- 1 y cant (662 diwrnod) yn aros am i dai gofal ychwanegol neu dai â chymorth fod ar gael
- Bron 2 y cant (998) oherwydd cartrefi anniogel sydd angen sylw, a digartrefedd
- Dros 1 y cant (659) o ddyddiau a dreuliwyd yn aros am addasiad.

Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn cadarnhau'r angen am ddull gweithredu gwirioneddol gydlynol at dai.

## Rydym angen cynllun cadarn y gellir ei roi ar waith i roi diwedd ar yr argyfwng tai.

Fel rhan o'n maniffesto *Cartrefi: Ar gyfer pob dyfodol*, rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i ddatblygu cynllun traws-sector ar gyfer tai sy'n cynnwys y cysylltiadau hanfodol gyda iechyd a gofal cymdeithasol. I fynd i'r afael â'r her y mae oedi oherwydd tai yn ei achosi i lesiant cleifion ac i'r GIG, rydym yn galw am genhadaeth Adre o'r Ysbyty traws-lywodraeth i ddod ag arbenigwyr ynghyd o sectorau tai, iechyd a gofal i ddynodi ffyrdd yn gyflym i gydweithio'n fwy effeithiol a sefydlu dull gweithredu Adre yn Gyntaf at adferiad cleifion. Bydd buddsoddiad


parhaus a chynyddol mewn addasiadau hefyd yn sicrhau y gall pobl aros adre yn hirach ac osgoi anafiadau a all arwain at dderbyniadau ysbyty.

## 2. Oedi cyn Rhyddhau o Ysbyty

Dengys data mis Rhagfyr 2025 y bu oedi cyn rhyddhau 1401 o gleifion oherwydd llwybrau gofal ar draws Cymru, gostyngiad o 4 y cant o fis Tachwedd 2025 (Ffigur 1). Roedd y diwrnodau cronnus oedi cyn rhyddhau cysylltiedig yn 61,147, yn cynrychioli gostyngiad o bron 4 y cant o fis Tachwedd 2025 (Ffigur 2). O'r rhain, bu oedi cyn rhyddhau 63 (4.5 y cant) o gleifion, gan gynrychioli 4,981 (8.1 y cant) o ddiwrnodau oedi cronnus, oherwydd materion cysylltiedig â thai.

Ar draws data misol 2025, mae nifer yr unigolion a brofodd oedi oherwydd llwybrau gofal yn dangos gostyngiad bach o gymharu gyda 2024 a 2023. Mae'r gostyngiad hwn yn fwy amlwg yn y nifer cronnus o ddiwrnodau oedi yn 2025, gan ddangos perfformiad gwell yn y system yn gyffredinol. Gostyngodd oedi oherwydd materion yn gysylltiedig â gwelyau GIG a throsglwyddo o ddechrau 2025, ac ni fu unrhyw oedi yn ail hanner 2025 oherwydd materion yn gysylltiedig â gwelyau GIG. Mae'r ddwy ffactor wedi cyfrannu at wella perfformiad system. Fodd bynnag, mae materion cysylltiedig â thai yn achosi oedi cyn rhyddhau wedi parhau i osod pwysau ar capasiti ysbytai GIG.

**Ffigur 1**: Oedi mewn Llwybrau Gofal- Unigolion




**Ffigur 2**: Diwrnodau Oedi cyn Rhyddhau – Diwrnodau Cronnus




Materion asesu (Tabl 1) oedd prif achos yr oedi ar gyfer y rhan fwyaf o gleifion (558), ond roedd cyfanswm y diwrnodau oedi yn gymharol fach o gymharu â nifer y cleifion. I'r gwrthwyneb, ar gyfer lleoliadau cartref gofal (346 o gleifion), gofal cartref (165 o gleifion) ac oedi cysylltiedig â thai (63 o gleifion), mae nifer y dyddiau oedi yn fwy na'u cyfran ymysg cleifion, gan ddangos fod yr achosion hyn o oedi yn tueddu i barhau'n hirach na rhai a achoswyd gan resymau eraill.

| Tabl 1: Cleifion a gafodd Oedi cyn Rhyddhau a Chanran Diwrnodau o'r Cyfanswm | **Cleifion** | **Diwrnodau Oedi** |
|---|---|---|
| Materion asesu | 39.8% | 26.5% |
| Trefniadau lleoliad cartref gofal | 24.7% | 35.4% |
| Materion cysylltiedig â gofal cartref | 11.8% | 8.1% |
| Anghytundeb/Deddfwriaeth | 7.0% | 11.2% |
| Camu lawr i adferiad ac asesu | 4.6% | 2.0% |
| Materion cysylltiedig â thai | 4.5% | 8.1% |
| Materion cyllid | 4.1% | 6.2% |
| Materion addasu cartrefi/offer | 3.2% | 2.4% |
| Materion cysylltiedig â throsglwyddo | 0.2% | 0.1% |
| Materion cysylltiedig â gwelyau GIG | 0.0% | 0.0% |

Roedd mwy na hanner yr oedi cyn rhyddhau yn gysylltiedig â lleoliad mewn cartref gofal, addasu cartrefi a phroblemau tai (Ffigur 3). Fel canlyniad, profodd 619 o gleifion, yn cynrychioli dros 44%, gyfanswm o 33,030 diwrnod o oedi, sy'n 54% o'r holl oedi cyn rhyddhau a gofnodwyd ym mis Rhagfyr 2025. Fe wnaeth oedi cyn rhyddhau cysylltiedig â thai gyfrannu at dros 8% o gyfanswm y diwrnodau oedi, yn gyfanswm o 4,981 diwrnod, gyda 63 o gleifion (4.5%) wedi cael eu hoedi yn benodol oherwydd heriau tai.


**Ffigur 3**: Diwrnodau Oedi cyn Rhyddhau o Ysbyty



Mae'r data ers mis Ebrill 2023 yn dangos gostyngiad cyson yn hyd cyfartalog oedi ar draws gwahanol lwybrau gofal (Ffigur 4), gyda gostyngiad cyffredinol yn hyd yr oedi ar draws pob llwybr. Fel y dangosir yn Ffigur 2, mae'r cyfanswm achosion oedi cyn rhyddhau hefyd wedi bod yn gostwng yn raddol. Yn hanner cyntaf 2025 roedd achosion unigol oedi cyn rhyddhau oherwydd prinder gwelyau NHS yn brin, er bod cyfanswm nifer y diwrnodau oedi yn parhau'n uchel. Yn ail hanner 2025 ni fu unrhyw oedi cyn rhyddhau oherwydd problemau gyda gwelyau GIG.

Fodd bynnag, bu cynnydd cyfartalog yn yr achosion o oedi cysylltiedig â thai, gan ddangos fod pobl y mae eu rhyddhau yn dibynnu ar dai yn profi oedi hirach na'r rhai a gafodd eu hoedi am resymau eraill. Fel y dangosir yn Ffigur 4, mae hyn yn dangos cynnydd cyson mewn tueddiad yn hytrach nag amrywiad tymor byr.

**Ffigur 4:** Hyd Cyfartalog Oedi – Dyddiau Cronnus




Dengys Tabl 2 fod dosbarthiad cynyddol yn cyd-fynd â'r tueddiad hwn, gyda'r ystod o gyfnodau oedi cyfartalog cysylltiedig â thai yn cynyddu o tua 10 diwrnod yn 2023 i dros 33 diwrnod yn 2025, a gaiff ei yrru gan gynnydd yn uchafswm cyfartalog cyfnodau oedi. Yn 2025, roedd hyd cyfartalog oedi ar draws pob llwybr gofal dros 45 diwrnod, a dros 76 diwrnod ar gyfer gofal cysylltiedig â thai. Bu'r bwlch (ystod yn nhabl 2) rhwng yr oedi cyfartalog isaf ac uchaf ar gyfer unrhyw fis penodol yn cynyddu ar gyfer oedi cyn rhyddhau cysylltiedig â thai. Gyda'i gilydd, mae'r patrymau hyn yn awgrymu cyfyngiadau parhaus ar fynediad i ddatrysiadau addas cysylltiedig â thai, sy'n rhoi pwysau ar i fyny ar hyd gohiriadau ar draws y system hyd yn oed pan fo lefelau gohiriadau drwyddi draw yn parhau'n gymharol sefydlog.

| Tabled 2 : Hyd Cyfartalog Oedi | 2023 Isaf | 2023 Cyfartalog | 2023 Uchaf | 2023 Ystod | 2024 Isaf | 2024 Cyfartalog | 2024 Uchaf | 2024 Ystod | 2025 Isaf | 2025 Cyfartalog | 2025 Uchaf | 2025 Ystod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Llwybrau Gofal yn gyffredinol* | 45 | 50 | 57 | 12 | 43 | 48 | 48 | 5 | 43 | 45 | 49 | 6 |
| • *Trefniadau lleoliad cartref gofal* | 61 | 69 | 79 | 18 | 65 | 70 | 78 | 13 | 59 | 65 | 77 | 18 |
| • *Materion addasu cartrefi/offer* | 28 | 36 | 48 | 20 | 19 | 32 | 41 | 22 | 25 | 35 | 48 | 23 |
| • *Materion cysylltiedig â gofal cartref* | 39 | 52 | 76 | 38 | 38 | 44 | 51 | 13 | 30 | 38 | 49 | 19 |
| • ***Materion cysylltiedig â thai*** | **58** | **63** | **68** | **10** | **40** | **65** | **84** | **44** | **57** | **76** | **90** | **33** |

## 3. Cost Oedi cyn Rhyddhau

Mewn papur gwybodaeth a gyhoeddwyd gan Gonffederasiwn y GIG ym mis Hydref 2023, amcangyfrifwyd fod cost gyfartalog noson mewn ysbyty yn £500.[7] Caiff yr amcangyfrif hwn ei ddilysu ymhellach yn adroddiad Pwyllgor Archwilio Cymru yng nghyfarfod Pwyllgor Rhanbarth Gorllewin Morgannwg ym mis Mawrth 2025.

Wrth edrych ar bob oedi cyn rhyddhau ar y diwrnod ciplun ym mis Rhagfyr 2025, roedd cleifion wedi profi oedi cronnus o 61,147 diwrnod ar gyfer pob llwybr gofal, gan gostio £30.5m i'r GIG mewn capasiti gwelyau a gollwyd. Roedd oedi cysylltiedig â thai ar ben eu hunain wedi costio £31,500 y noson i'r GIG, neu £2.49 miliwn cronnus, ar gyfer y 4,981 o dyddiau oedi cyn rhyddhau oherwydd materion yn gysylltiedig â thai.

Roedd diwrnodau oedi cyn rhyddhau (21,635) oherwydd trefniadau lleoliadau cartref gofal wedi costio £10.8 miliwn i'r system GIG; yn yr un modd, roedd lleoliadau cartref gofal wedi costio £2.4 miliwn (4,933 diwrnod cronnus) ac addasu cartrefi wedi costio £0.7 miliwn (1,481 diwrnod cronnus).

Er mai cyfran fach iawn (0.2 y cant) o gyfanswm cyllideb gweithredu y GIG ar gyfer 2025/26 yw'r amcangyfrif o gost oedi cyn rhyddhau, mae'n wariant sylweddol o gymharu gyda chyllidebau rhaglenni eraill y GIG ac yn cael effaith niweidiol ar y rhai sy'n aros am ofal ysbyty a hefyd y rhai sy'n barod i ddychwelyd adre.

Fel cyd-destun, mae'r amcangyfrif o £30.5 miliwn tua 56 y cant o'r £50.2 miliwn a ddyrannwyd i Berfformiad a Gwella GIG Cymru yng nghyllideb genedlaethol 2025-26. Mae oedi cysylltiedig â thai ar ben eu hunain, yn £2.49 miliwn, yn cyfrif am tua

[7] "Briefing: Minister for Finance and Local Government Statement on the 2023-204 financial position," NHS Federation, 17 Hydref 2023.

5 y cant o ddyraniad cyllideb genedlaethol Perfformiad a Gwella GIG Cymru. Mae'r gymhariaeth hon yn dangos maint y pwysau strwythurol y mae tagfeydd cyn rhyddhau yn eu rhoi ar gyllid perfformiad wedi ei dargedu.

O fewn materion cysylltiedig â thai, roedd bron 67 y cant o'r gost (£1.6 miliwn) oherwydd diffyg cartref addas ar gael, a roedd digartrefedd yn cyfrif am 11 y cant o'r gost (Tabl 3).

Fel cymhariaeth, roedd y rhent cyfartalog a osodwyd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar gyfer pob uned gymdeithasol hunan-gynwysedig (anghenion cyffredinol, gwarchod, tai â chymorth arall a gofal ychwanegol) yn £119.40, sy'n rhoi cyfanswm o £6,208 am 52 wythnos neu un flwyddyn o rent cyfartalog. Mae amcangyfrif cost oedi cyn rhyddhau oherwydd llwybrau gofal tai yn gyfwerth â 52 wythnos o rent cyfartalog 401 uned tai cymdeithasol hunan-gynwysedig. Bwriadai'r llywodraeth wario grant o tua £163,000 fesul annedd[8] drwy'r Grant Tai Cymdeithasol i adeiladu cartrefi fforddiadwy newydd. Mae oedi cyn rhyddhau yn costio'n gyfartal â gwariant y llywodraeth ar 16 annedd. O gymharu, cafodd rhyddhau 36 o bobl ei oedi oherwydd eu bod yn ddigartref (13) neu oherwydd nad oedd ganddynt gartref addas (23). Er bod gwelyau ysbyty GIG yn defnyddio llawer o adnoddau, byddai gostwng oedi cyn rhyddhau cysylltiedig â thai drwy adeiladu mwy o gartrefi cymdeithasol yn helpu i liniaru defnydd maith ar welyau GIG a gwella perfformiad y GIG y mae'r gohiriadau hyn yn effeithio arno.

***Tabl 3: Amcangyfrif Cost – Rhagfyr 2025***

| ***Materion Cysylltiedig â Thai*** | **Dyddiau cronnus** | **Amcangyfrif cost** |
|---|---|---|
| *Aros i ofal ychwanegol ddod ar gael* | 107 | £53,500.00 |
| *Aros i fyw â chymorth ddod ar gael* | 555 | £277,500.00 |
| *Cartrefi heb fod yn ddiogel ac angen sylw* | 436 | £218,000.00 |
| *Digartref* | 552 | £276,000.00 |
| *Dim cartref addas – angen ailgartrefu* | 3,331 | £1,665,500.00 |
| *Cyfanswm* | 4,981 | £2,490,500.00 |

## 4. Casgliad

Mae oedi cyn rhyddhau cysylltiedig â thai yn gyfyngiad strwythurol o fewn y GIG yn hytrach nag amrywiad gweithredol dros dro ac yn galw am ymateb systematig a chydlynol. Er fod nifer yr achosion cysylltiedig â thai yn parhau yn gymharol isel o gymharu â chyfanswm yr oedi mewn llwybrau gofal, mae hyd yr oedi hwn yn sylweddol hirach. Fel canlyniad, mae llwybrau cysylltiedig â thai yn cyfrif am gyfran anghymesur o ddiwrnodau cronnus oedi a defnydd capasiti gwelyau ysbyty.

[8] Tai fforddiadwy, Archwilio Cymru, Medi 2024, https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Affordable_housing.pdf

Mae'r canfyddiadau hyn yn cryfhau'r achos a gyflwynir yn Cartrefi ar gyfer Pob Dyfodol sy'n galw am raglen barhaus y gellir ei rhoi ar waith i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy ar draws Cymru. Byddai cynyddu'r cyflenwad o dai cyffredinol a thai arbenigol yn cefnogi rhyddhau mwy amserol o ysbytai, gwella canlyniadau cleifion ac yn cryfhau perfformiad y GIG. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i weithredu ar "Genhadaeth Adre o'r Ysbyty" ac i gydweithio gyda systemau tai, iechyd a gofal i ostwng oedi wrth drosglwyddo gofal a hyrwyddo dull "Adre yn Gyntaf" at adferiad.

Mae Adeiladu Lleoedd Iachach a Thecach felly yn fwy nag uchelgais tai yn unig. Mae'n ymarferiad systemau ymarferol sy'n cefnogi perfformiad iechyd, atal a gwasanaeth cyhoeddus ledled Cymru.




## Atodiad 1

Diwrnodau rhyddhau gohiriedig yn ôl categori: mae'r data yn dangos gostyngiad yng nghyfanswm y niferoedd; fodd bynnag maent yn parhau yn uchel.

| Categori | Mis Hydref 2025 | Mis Tachwedd 2025 | Mis Rhagfyr 2025 |
|---|---|---|---|
| Materion Asesu | 17,587 Diwrnod o Oedi | 18,944 Diwrnod o Oedi | 16,198 Diwrnod o Oedi |
| Trefniadau lleoliad cartref gofal | 19,014 Diwrnod o Oedi | 18,653 Diwrnod o Oedi | 21,635 Diwrnod o Oedi |
| Anghytundeb/Deddfwriaeth | 8,206 Diwrnod o Oedi | 8,538 Diwrnod o Oedi | 6,849 Diwrnod o Oedi |
| Materion cyllid | 3,823 Diwrnod o Oedi | 4,265 Diwrnod o Oedi | 3,806 Diwrnod o Oedi |
| Materion addasu cartrefi/offer | 1,359 Diwrnod o Oedi | 1,055 Diwrnod o Oedi | 1,481 Diwrnod o Oedi |
| Materion cysylltiedig â gofal cartref | 6,287 Diwrnod o Oedi | 4,743 Diwrnod o Oedi | 4,933 Diwrnod o Oedi |
| Materion cysylltiedig â thai | 5,465 Diwrnod o Oedi | 5,365 Diwrnod o Oedi | 4,981 Diwrnod o Oedi |
| Materion cysylltiedig â gwelyau GIG | | | |
| Camu lawr ar gyfer adferiad ac asesu | 2,180 Diwrnod o Oedi | 1,835 Diwrnod o Oedi | 1,218 Diwrnod o Oedi |
| Materion cysylltiedig â throsglwyddo | 213 Diwrnod o Oedi | 160 Diwrnod o Oedi | 46 Diwrnod o Oedi |
| **Cyfanswm** | **64,134 Diwrnod o Oedi** | **63,558 Diwrnod o Oedi** | **61,147 Diwrnod o Oedi** |